Cenn@d

MAI 26 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 13

Dos i hel dy draed!

Braslun o weithgarwch Wythnos Cymorth Cristnogol

Dos i hel dy draed! Dyna her Cymorth Cristnogol i'w gefnogwyr ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, a bu nifer fawr yn ffyddlon i'r alwad. Bu her y 300,000 o gamau yn un o uchafbwyntiau'r wythnos o godi arian i nifer ym mhob rhan o Gymru.

Unodd dwy o weinidogion y Presbyteriaid ar daith unigryw yn y gogledd. Cyflawnodd Nan Powell-Davies ac Anna Jane Evans eu tasg mewn wythnos, gan gerdded rhan o lwybr yr arfordir ar Ynys Cybi, y Llwybr Llechi, heb sôn am fryniau Eryri a Chlwyd.

Aeth criw Pwyllgor Llambed un cam ymhellach na phawb arall – a cherdded 1.5 miliwn o gamau. Am her! Rhannwyd yr her rhwng y gwahanol eglwysi, a chafodd yr ardal hardd honno yn y gorllewin fod yn llygad-dyst i gerddwyr brwdfrydig y mudiad.

Yn ôl â ni i'r gogledd, a cherddodd Brenda Wilford o'r Waun i Drefor. Ymdrech arbennig ganddi wedi iddi ddeall na fyddai casglu o ddrws i ddrws yn ymarferol. Ymunodd ffrindiau â hi ar y daith.

Ar ei feic yr aeth y Tad Rhun o Ardal Weinidogaethol Afon Nedd. Seiclodd o amgylch ei ofalaeth newydd.

Cerdded o Lanfairfechan i Gonwy a wnaeth Wes a Catrin Evans, taith o 7.5 milltir gan gario 0.75 galwyn o ddŵr gyda nhw bob cam. Pam? Wel, am ei bod yn ben-blwydd Cymorth Cristnogol yn 75 ac am mai gorchwyl felly sy'n wynebu rhai o wragedd tlotaf gwlad fel Kenya er mwyn cael dŵr at reidiau angenrheidiol bywyd.

Aeth staff Cymorth Cristnogol ar daith hefyd – i stiwdios y cyfryngau i ledaenu'r hanes am yr Wythnos. Aeth Mari McNeill, y pennaeth yng Nghymru, draw i Lanelli i ymddangos ar raglen *Prynhawn Da*, tra bu Dyfed, Nathan, Helen a Llinos yn ddigon ffodus i gael darlledu o'u cartrefi ar gyfer yr oedfa ar Radio Cymru. Yn ogystal, cafodd yr Wythnos sylw ar *Post Prynhawn*, *Bore Cothi*, *Heno* a *Bwrw Golwg*.

I gloi'r braslun hwn o weithgarwch yr Wythnos, awn i Gaerdydd. Yno y mae Ysgol Gynradd Dinas Llandaf. Mae'r ysgol hon wedi bod yn hynod weithgar yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ers blynyddoedd, ond eleni dyma dorri pob record a chodi dros £2,000 tuag at yr achos. Ardderchog yn wir! Trwy gerdded, seiclo, dawnsio, tynnu lluniau, glanhau o amgylch y cartref a llu o weithgarwch arall, dangosodd y disgyblion ymroddgar hyn fod y gwaith o gefnogi cymunedau mwyaf bregus ein byd yn perthyn i bawb o bob oed.

Meddai Mari, 'Mae wedi bod mor wych gweld yr holl weithgarwch o amgylch Cymru yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Er gwaetha her y pandemig, mae cefnogwyr Cymorth Cristnogol unwaith yn rhagor wedi dangos eu hymroddiad a'u ffyddlondeb i'r weledigaeth o ddileu tlodi. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddynt am bob ymdrech. Maen nhw'n wych!'

Dyfed Wyn Roberts

Apêl Covid 19 dros Ysbyty H. Gordon Roberts yn Shillong
Tudalen 3

I Drefeca fach ...
Tudalen 4

Eisteddfod Rithiol Cenn@d 2021
Tudalen 7

Gwahoddiad gan ddarpar Lywydd Undeb Bedyddwyr Cymru, Miss Aldyth Williams, i Gyfarfodydd Blynyddol 2021 dan nawdd Cymanfa Gorllewin Morgannwg

Vincent Watkins ac Aldyth Williams

Bu'n rhaid gohirio'r Cyfarfodydd Blynyddol y llynedd o ganlyniad i Covid-19. Mae'r sefyllfa yn gwella'n raddol, ond eleni eto ni fydd yn bosib cynnal y cyfarfodydd yn y modd arferol. Daethom i gyd yn gyfarwydd â Zoom dros y misoedd diwethaf, ac mae'n gyfrwng addas i ddod â ni at ein gilydd i rannu elfennau pwysig o'n Cyfarfodydd Blynyddol â'n gilydd.

Cynhelir y cyfarfodydd eleni dan nawdd Cymanfa Gorllewin Morgannwg. Mae'r Gymanfa yn eang o ran arwynebedd, yn ymestyn o Ben-y-bont yn y dwyrain i Bontarddulais yn y gorllewin, ac yn y cyfeiriad arall o Frynaman a Glyn Nedd yn y gogledd i Benrhyn Gŵyr yn y de. Hefyd, mae'r Gymanfa'n gartref i Gwm Ilston – mangre sydd mor bwysig i ni fel Bedyddwyr yng Nghymru, a'r fan lle bu John Miles yn cynnal yr oedfa Fedyddiedig gyntaf ym 1649.

Byddwn yn cynnal Oedfa'r Llywydd yng nghwmni cynulleidfa gyfyngedig yn Seion Newydd, Treforys, pan fydd Miss Aldyth Williams yn esgyn i'r Llywyddiaeth. Thema'r oedfa fydd 'Awr Duw yn Galw', yn seiliedig ar gloc unigryw yn festri'r capel.



Mae'r cloc hwn yn rhan bwysig iawn o hanes y capel. Rhodd gan yr ysgol Sul ydoedd pan ddechreuodd yr achos yn Nhreforys ym 1845. Mae'r cloc yn dangos llythrennau yn lle ffigyrau, ac wrth ddechrau am un o'r gloch mae'r her o ymateb i alwad Duw yn ymddangos ar wyneb y cloc.

Cynhelir Oedfa'r Weinidogaeth yng nghapel Carmel, Pont-lliw. Y pregethwr fydd gweinidog yr eglwys, y Parchedig Vincent Watkins, Ysgrifennydd ymroddgar y Gymanfa. Diolch am y cyfle i anrhydeddu Vincent am ei flynyddoedd yn y weinidogaeth a'i waith diflino dros y Gymanfa.

Bydd yr oedfaon yn cael eu recordio ddechrau mis Mehefin ac yna'n cael eu darlledu drwy gyfrwng Zoom, pan fydd croeso i'r holl gynadleddwyr ymuno.

Gwahoddiad i fod yn rhan o gynhadledd Momentum 2021 – Newid yr Awyrgylch

Eleni, nid ydym yn gofyn i chi fynychu cynhadledd Momentum. Yn hytrach, rydym yn gofyn i chi fod yn 'Momentum', ond gyda gwahaniaeth! Rydym am estyn gwahoddiad i bob eglwys a chapel Bedyddiedig i ymuno mewn ton genedlaethol o weddi. Dechreuodd ar y Pentecost, dydd Sul, 23 Mai, a bydd yn gorffen ddydd Sul, 27 Mehefin, am 6.30yh gyda digwyddiad cenedlaethol a ddarlledir yn fyw dros y we. Yn union fel y bu i'r Ysbryd Glân nerthu'r disgyblion a'u hanfon allan i Jerwsalem, Samaria a hyd eithaf y ddaear, rydym yn rhag-weld y bydd ein gweddi'n ymestyn fel ton ar draws Cymru. Ar ôl dechrau yn Ilston, Gŵyr, bydd yn symud i orllewin a gogledd Cymru ac yna'n dychwelyd i Ilston drwy'r canolbarth a de-ddwyrain Cymru. Ilston oedd y man cychwyn gan mai dyna fan geni Bedyddwyr Cymru yn 1649, dechrau taith sy'n parhau heddiw – gyda chi!

Apêl Undeb Bedyddwyr Cymru: Cofio Timothy Richards a chefnogi waith y BMS

Cyfanswm yr hyn a dderbyniwyd hyd at ddiwedd Ebrill 2021 oedd £31,747. Mawr obeithiwn y bydd modd inni gyrraedd y targed o £40,000 erbyn y Cyfarfodydd Blynyddol, pan fydd yr apêl yn cau. Os nad ydych wedi cyfrannu, gofynnwn yn garedig i chi anfon rhodd er mwyn cynorthwyo plant ffoaduriaid yn Lebanon i gael addysg. Gall eich cyfraniad wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau plant ifainc sydd wedi gorfod gadael eu cartrefi a'u mamwlad. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Swyddfa yn y Llwyfan, gyda sieciau'n daladwy i 'Undeb Bedyddwyr Cymru' gan nodi eu bod at yr apêl. Diolch!



Derbyniwyd hyd yma: £31,747.00

Gair o gydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Hilary Thomas, gwraig y Parchedig D Leighton Thomas, ddydd Gwener, 7 Mai, yn ei chartref yn Nhreboeth, Abertawe. Gwelir ei heisiau yn fawr gan gynulleidfa Caersalem Newydd, Treboeth, a chydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod Leighton a'r teulu yn eu profedigaeth.

Judith Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol
Undeb Bedyddwyr Cymru

Apêl Covid 19 dros Ysbyty H. Gordon Roberts yn Shillong, ac Ysbyty Norman Tunnel yn Jowai

Mae effeithiau Covid 19 yng Ngogledd-ddwyrain India, ac yn enwedig yn nhalaith Meghalaya, yn cynyddu bob dydd. Dyma ein cyfle fel eglwys i ymateb i'r sefyllfa hon.

Ein nod yw codi £30,000

Mae'r ddwy ysbyty yn orlawn o gleifion, ac maen nhw nawr yn ystyried y ffordd orau o sicrhau mwy o le ynddynt. Hefyd, gobeithir trefnu bod staff, sydd wedi bod dan bwysau ers cryn amser, yn gallu rhoi mwy o'u hamser i weithio gyda'r cleifion. Anhawster arall yw prinder ocsigen meddygol ac awyryddion, ac mae'n anodd trin y cleifion heb yr adnoddau meddygol angenrheidiol.

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi penderfynu sefydlu apêl ariannol i godi £30,000 i ddiwallu'r angen brys hwn.

Rydym yn ymwybodol y bydd yr angen cymdeithasol ac economaidd hefyd yn dwysáu yn nhalaith Meghalaya, fel mewn llawer o daleithiau eraill yn India dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Ein braint fel Eglwys ar hyn o bryd yw sefyll gyda'n chwiorydd a'n brodyr ac ymateb i'r anghenion sy'n eu hwynebu heddiw.

Fel hyn y mynegodd Gwenda Richards, un o Gyn-lywyddion Cymanfa Gyffredinol y Presbyteriaid, ei gwerthfawrogiad o waith y ddwy ysbyty yma yn Shillong a Jowai yn benodol: 'Rwyf wedi cael y fraint o ymweld â'r ddau ysbyty sawl gwaith a phob tro wedi rhyfeddu at waith amhrisiadwy'r ysbytai, yn enwedig ymhlith y tlodion.'

Apêl Frys Ysbytai Shillong a Jowai (Rhoddir yma ran o lythyr a anfonwyd at yr eglwysi yn esbonio'r sefyllfa a'r brys i weithredu, ynghyd â manylion sut i gyfrannu at yr apel)

Mae prinder ocsigen yn peri loes i'r meddygon a'r nyrsys yn y ddau ysbyty, ond yn arbennig yn Ysbyty H. Gordon Roberts yn Shillong. Mae galw am ocsigen yn eu tair Canolfan Iechyd Gwledig sydd dan ofal yr ysbyty, a gallwn ni yma yng Nghymru gynorthwyo. Ein bwriad yw prynu peiriannau i greu ocsigen (oxygen concentrators) ar gyfer Clinigau Gwledig Ysbyty H. Gordon Roberts, a'r un pryd greu adnodd i leoli'r prif beiriant yn yr ysbyty yn Shillong. Bwriadwn hefyd brynu peiriannau anadlu (ventilators) ar gyfer Ysbyty Norman Tunnel. Amcangyfrif o'r gost, gan gynnwys cludiant, yw £30,000.

Fel y gallwch dybio, mae brys, ac felly apêl am gyfnod byr yw'r apêl hon, o 18 Mai hyd at 6 Mehefin. Erfyniwn arnoch i gyfrannu yn ôl eich gallu i helpu ein brodyr a'n chwiorydd yn ardal Shillong a Jowai ym Mryniau Casia. Gall ein cymorth olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw i gleifion yn y ddau ysbyty.

Mae'r mwyafrif ohonoch yn ymwybodol o'r berthynas agos ac annwyl sydd rhwng ein Cyfundeb ac eglwysi Bryniau Casia, sydd yn Nhalaith Meghalaya yng Ngogledd-ddwyrain India. Y Parchedig Thomas Jones o Aberriw yn Sir Drefaldwyn sefydlodd yr Eglwys Bresbyteraidd yno dros ganrif a hanner yn ôl, eglwys sydd erbyn heddiw yn eang a'i chenhadaeth yn destun edmygedd. Yn ogystal ag eglwysi lleol, mae ysbytai, ysgolion, colegau, canolfannau cynghori a llawer mwy yn rhan ohoni.

Gallwch gyfrannu mewn tair ffordd:

1. Gall y sawl sy'n bancio 'ar lein' anfon yr arian yn syth i gyfrif banc Eglwys Bresbyteraidd Cymru, **ond gan gofio nodi 'P0160-Covid India 2021' gyda'r cyfraniad**. Dyma'r manylion:

   Cod didoli: 20-10-26
   Rhif y Cyfrif: 30354546
   Enw'r Cyfrif: EBC Bywyd a Thystiolaeth

2. Anfon siec yn daladwy i Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Unwaith eto, **mae'n hollbwysig ysgrifennu 'P0160-Covid India 2021' ar gefn y siec**. Dyma'r cyfeiriad:

   Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Capel y Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Caerdydd, CF14 1DD.

3. Drwy gyfrannu ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru: https://www.ebcpcw.cymru/cy/apêl-covid-india/

Ein braint yw cyfrannu yn y modd yma, yn ogystal â chynnal ein brodyr a'n chwiorydd yng Ngogledd-ddwyrain India trwy weddi.

Gyda llawer o ddiolch,

Marcus Robinson
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol



Meirion Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol



Gwenda Richards
Cyn-lywydd y Gymanfa

I Drefeca fach ...

Mae *Cenn@d* yn falch o groesawu Rhys Bebb Jones yn aelod o staff Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC). Cafodd ei benodi i swydd ddau ddiwrnod yr wythnos yn Gydlynydd Hyfforddiant a Swyddog Datblygu Trefeca yn yr Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant ac Adran Trefeca.

Dechreuodd ar ei waith ar 25 Mawrth a dyma'i holi am y swydd ... a dod i'w adnabod yn well.

Beth yw eich swydd newydd?

Rhan o'r swydd yw cydweithio â Delyth Oswy-Shaw, Cydlynydd Hyfforddiant Cenedlaethol EBC, yn trefnu, hyrwyddo a datblygu cyfleoedd hyfforddi EBC, yn arbennig yng nghanolbarth a de Cymru. Rhan arall y swydd yw cydweithio â Mair Jones, Rheolwr Coleg Trefeca, i ddatblygu a hyrwyddo'r defnydd o Drefeca, ger Aberhonddu, ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Edrychaf ymlaen at gynorthwyo i hyrwyddo Trefeca, ein canolfan hyfforddi a chynadledda gyfforddus a'i threftadaeth Gristnogol gyfoethog.

Mae'n swnio'n swydd ddifyr – beth yw eich blaenoriaethau wrth ddechrau yn y swydd?

Byddaf yn canolbwyntio ar Goleg Trefeca yn yr wythnosau cyntaf. Mae'n gyfle i gydweithio â Mair Jones a'i staff ac Ymddiriedolwyr Trefeca, yn arbennig y Cadeirydd, y Parchedig Trefor Lewis, a Joanna Thomas-Wright, Pennaeth Cefnogaeth Strategol EBC ac Ysgrifennydd yr Ymddiriedolwyr.

Bu'n flwyddyn heriol ac anodd i bawb yn sgil effeithiau'r coronafeirws a chyfyngiadau'r cyfnodau clo. Ond rydyn

ni'n cynllunio i groesawu ymwelwyr yn ôl wrth i'r cyfyngiadau clo newid a drysau Trefeca agor unwaith eto.

Dyma gartref hanesyddol ac amgueddfa o henebion yn ymwneud â Howel Harris a'r Diwygiad Methodistaidd. Ceir hefyd gasgliadau o arteffactau hynod yn ymwneud â hanes crefyddol Cymru. Fy ngobaith yw y bydd y byd a'r betws yn heidio yno pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.

Paham ymgeisio am y swydd a beth yw eich cefndir?

Treuliais fy ngyrfa mewn llyfrgellyddiaeth a gwybodaeth. Roeddwn yn Bennaeth Isadran Cynnal Casgliadau a Storfeydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, cyn ymddeol yn Hydref 2020. Cyn hynny bûm yn gweithio mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn Ynys Môn, Gwynedd a Chlwyd.

Cynorthwyo pobl wnaeth fy nenu at lyfrgellyddiaeth, a gwasanaethu eraill yw apêl y swydd hon. Rwy'n ei ystyried yn gyfle i gyfrannu'n ehangach at yr hyn a wnaf yn flaenor a thrysorydd yng Nghapel Shiloh, Llanbedr Pont Steffan. Rwy'n bregethwr lleyg a chefais fy nghomisiynu yn 2019 i weinyddu sacramentau'r cymun a'r bedydd. Bu'r hyfforddiant a gefais yn fuddiol i ddysgu sgiliau hanfodol i wasanaethu yn fy nghapel a'r gymuned. Dyma swydd sy'n rhoi'r cyfle i mi drefnu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ar gyfer eraill i'w cynorthwyo i wasanaethu eu capeli a'u cymunedau.

Rydych yn byw yn Llanbedr Pont Steffan ac yn enedigol o Fangor, Gwynedd. Dywedwch fwy am eich hanes i orffen ein sgwrs.

Yn un o bedwar o blant, cefais fy medyddio yng Nghapel y Tabernacl gan y diweddar Barchedig Harri Williams a'm derbyn yng Nghapel Twrgwyn, Bangor, gan y diweddar Barchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts. Derbyniais f'addysg yn ysgolion Sant Paul a Friars, Bangor, ac enillais radd yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, a diploma mewn llyfrgellyddiaeth yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru, Aberystwyth. Bûm yn gweithio mewn llyfrgelloedd cyhoeddus rhwng 1983 ac 2002, cyn symud i weithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru gyda'm priod, Shân.

Rwy'n aelod yng Nghapel Shiloh, yn gynghorydd tref ac yn canu gyda Chôr Meibion Cwmann. Rwy'n cyfrannu hefyd at waith Cadwyn Teifi, Cymorth Cristnogol, Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen, Papur Bro Clonc a'r Rotari. Rwy'n mwynhau helpu ar fferm y teulu ac yn ymlacio wrth wrando ar gerddoriaeth, cerdded a theithio.

Diolch yn fawr, Rhys, am ateb y cwestiynau gan ddymuno pob bendith yn eich swydd newydd gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Dathliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd (parhad)

Yn rhifyn yr wythnos diwethaf, cafwyd ychydig o flas arlwy'r sasiwn rithiol a gynhaliwyd yng Nghricieth ar 6 Mai. Y tro hwn cawn gip ar anerchiad Mererid Hopwood yn y dathliad.

Dechreuodd yr Athro Mererid Hopwood ei hanerchiad gyda'r adnod, 'Ar unwaith, gan adael y cwch a'u tad, canlynasant ef'. Rhannodd ei hatgofion am ei phlentyndod yn Sir Benfro yn ardal Wdig a hanesion o gwmpas goleudy Pen Strwmbl. Cyfeiriodd at eiriau Salm 127 sydd i'w gweld ar blac tu mewn i stafell y lantern yn y goleudy: 'Os nad yw'r Arglwydd yn adeiladu'r tŷ y mae ei adeiladwyr yn gweithio'n ofer. Os nad yw'r Arglwydd yn gwylio'r ddinas, y mae'r gwylwyr yn effro'n ofer.'

Aeth ymlaen i sôn am oleudy arall, sef goleudy Rhyddid ('Statue of Liberty') yr Unol Daleithiau, rhodd gan Ffrainc sy'n cynrychioli rhyddid. Cyfeiriodd at soned Emma Lazarus, 'The New Colossus', sy'n llechu yn ei chrombil. Ychwanegodd fod y cadwyni toredig a welir wrth draed y *fenyw gref* yn cynrychioli diddymu caethwasiaeth gan sicrhau rhyddid i'r caethweision. Cawsom ein hatgoffa mai arwyddair cenedlaethol Ffrainc o'i gyfieithu yw: 'rhyddid, cydraddoldeb, brawdgarwch a chwaergarwch'. Mae fel petai'r gair 'rhyddid' yn llawer mwy poblogaidd na'r ddau arall, ond dylem oll fod yn gydradd, gyda'r un breintiau i bawb.

Pwysleisiodd fod angen mwy na symbol a bod angen gweithredu, ac awgrymodd fod cyfnod y pandemig yn gyfle i ni sobri a meddwl sut y gallwn ni wneud pethau'n well. Un arwyddair amlwg y dyddiau hyn yw: 'Build Back Better', ond a yw hynny'n ddigon? Mae'r gair 'back' yn awgrymu ei bod yn hawdd iawn syrthio 'nôl i'r hen drefn, ond mae angen gweithredu fel y disgyblion: gadael yr hen drefn yn llwyr a mentro ar ffordd gwbl newydd.

I ddiweddu ei hanerchiad darllenodd ei cherdd, 'A pha beth a wnawn?', a gomisiynwyd gan y BBC i ddathlu Gŵyl Ddewi. Tynnodd ein sylw at eiriau olaf Dewi Sant ac yn arbennig y cyfarchiad, 'Frodyr a chwiorydd'. Pwysleisiodd y geiriau 'a chwiorydd' sy'n awgrymu fod dyn a menyw yn gydradd yn y 6ed ganrif yng Nghymru. Byddai gallu gweld ein gilydd fel brodyr, fel chwiorydd, heddiw yn weithred ynddi'i hun. Rhoddodd her i ni, ferched Cymru, i fod yn barod i fentro: i adael y cwch a'r hen ffyrdd o fyw a chanlyn ffordd newydd.

I ddilyn, cafwyd dehongliad hyfryd o'r gân 'Cerddwn ymlaen i'r yfory' gan Siân Eirian a Chôr Adlais. Daeth y cyfarfod hynod fendithiol i ben pan offrymwyd gweddi gan Elsbeth Gwynne a Catrin Codd. Roedd y gwasanaeth oll yn gyflwyniad o'r radd flaenaf, ac yn arbennig y gwaith ffilmio'r gwahanol olygfeydd a wnaed gan y Parchedig Gwyn Rhydderch. Mae ein diolch yn fawr iawn i chwiorydd Capel y Traeth am baratoi gwasanaeth arbennig iawn.

Os bu i chi fethu ymuno'n rhithiol â'r gwasanaeth, mae modd gweld y cyfan ar YouTube neu Facebook.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Eirian Roberts, Coleg y Bala, 01678 520065 neu eirian.roberts@ebcpcw

Mena R. Evans
Treffynnon

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

HENADURIAETH MORGANNWG-LLUNDAIN CYLCH LLUNDAIN

Cynorthwyydd Gweinidogaethol

Gwahoddwn rai â diddordeb mewn hybu gwaith Cristionogol ac Eglwysig i ymddiddori yn y swydd o Gynorthwyydd Gweinidogaethol i wasanaethu Eglwysi Presbyteraidd Llundain.

I ddechrau:	Medi 2021
Oriau:	35 awr yr wythnos
Cytundeb:	2 flynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
Cyflog:	Graddfa 23-27 £23,950 - £26,056 a chyfle i ymuno â Phensiwn EBC
Ychwanegol:	Llety ynghlwm â'r swydd a lwfans trafnidiaeth o fewn y ddinas

Mae'r Swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn alluog yn y Gymraeg neu'n ymrwymo i ddysgu'r iaith (llafar ac ysgrifenedig).

Am fanylion pellach, cysylltwch â Hedd Morgan yn Swyddfa Caerdydd ar 02920 627465
E: hedd@ebcpcw.cymru

Dyddiad cau: 4yp dydd Gwener 4 Mehefin 2021

ADNABOD

Cyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Cymeriadau'r Testament Newydd

Yr Eglwys Fore
47 – Apolos

Gweddi

Yn ein myfyrdod heddiw, Arglwydd, diolchwn am bawb a fu'n rhan o'n cynnydd yn y ffydd ac yn ddylanwadau wrth i ni aeddfedu fel pobl Crist. Gweddïwn am gymorth i dyfu yng Nghrist wrth i ni fyfyrio ar dy air. Amen.

Darllen

Actau 18: 24–8; 1 Corinthiaid 3: 4–7, 22

Cyflwyniad

Dywedir am Apolos ei fod yn Iddew, wedi ei eni yn Alexandria, ac yn gyfarwydd â'r Ysgrythurau. Cyrhaeddodd Effesus yn 49 OC, ac roedd yn siaradwr hyderus yn y synagog. Dim ond wedi clywed sôn am 'y ffeithiau am Iesu' yr oedd Apolos, a gwybod am 'fedydd Ioan' (adn 25) yn unig. Felly, dyma Acwila a Priscila yn gweld eu cyfle i ddweud wrtho beth oedd eu profiad hwy, gan egluro'n fanylach i Apolos am y ffydd Gristnogol. Aeth yntau ymlaen i Gorinth a chyfarfod Paul. Bellach roedd Apolos yn un o addysgwyr yr eglwys. Bu'n gyfrwng i argyhoeddi eraill ac roedd ganddo nifer o ddisgyblion. Sylwodd Paul fod yna rai a bleidiai eu bod dros Apolos, ond mynnai Paul na ddylid gweld sectau oddi mewn i'r eglwys a bod pawb yn bobl Crist y groes a Christ yr atgyfodiad.

Mor hawdd yw gweld yr ymraniadau fel endidau pwysig ynddynt eu hunain, yn hytrach na gweld y cyfan fel yr endid cyflawn. Bydd llawer gormod yn hawlio bod yr eglwys leol yn hollbwysig, yn hytrach na'i bod yn rhan o'r cyfan. Ceir sôn anffodus am enwadaeth neu am garfanau diwinyddol, fel pe bai hynny'n bopeth, ond un corff yw'r eglwys fawr, fyd-eang, ac nid oes gwahaniaeth rhwng yr enwadau na'r cenhedloedd mewn gwirionedd. Popeth yn dda i ystyried pwyslais a dehongliad personol – dim ond bod y sawl sy'n traethu'n gweld bod pob un sy'n arddel Crist yn Arglwydd yn rhan o deulu Duw.

Myfyrdod

Mae'n rhaid fod yna lawer o holi wedi bod ar Paul, yn pwysleisio'r elfennau sy'n gwahanu Cristnogion oddi wrth ei gilydd. Yn y paragraff cyfarwydd yn Effesiaid 4 sy'n sôn am undod y corff, dywed Paul fod pob swyddogaeth yn yr eglwys yr un mor werthfawr a hanfodol â'i gilydd.

Er cyn lleied a wyddom am Apolos mewn gwirionedd, roedd Luc yn hapus i nodi bod Paul yn gweld Duw yn defnyddio'r ddau ohonynt i gydweithio â'i gilydd, y naill yn hau'r had a'r llall yn dyfrhau. Bydd addysg pob plentyn fel camau ar y daith, a chyfraniad y cylch meithrin yr un mor hanfodol â chyfraniad yr ysgol gynradd, yr ysgol uwchradd a'r sector addysg bellach. Gwelwn fod pob haen o friciau yn rhan o'r wal gyfan.

Os proses o ddylanwadau yw addysg, onid proses o brofiadau yw bywyd, â'r naill elfen yn cynnig cynnydd ar y profiad blaenorol? Bydd tyfu mewn gras yn golygu ein bod yn cynyddu fel pobl ac yn gryfach ac yn fwy Crist-debyg fel canlyniad. Wrth i Paul gydnabod cyfraniad Apolos mewn eglwys, gwelwn fod yna Un sy'n cydlynu ac yn cyfarwyddo gwaith yr eglwys o safbwynt tu hwnt i'n gorwel ni, a diolchwn am hynny.

Gweddi

Cymorth ni i ddiolch am bob Paul ac Apolos ar ein taith. Helpa ni i gadw ein golwg ar Iesu a theimlo ein bod yn tyfu bob dydd. Sylweddolwn hefyd fod ein hesiampl ni yn dylanwadu ar eraill, er da ac er drwg. Dyro i ni ynganu dy eiriau a byw dy Efengyl drwy'r amser. Amen.

Trafod ac ymateb:

- Beth sy'n gwneud rhywun yn 'gadarn yn yr Ysgrythurau' (Actau 18:24)?
- Beth oedd yn ddiffygiol, tybed, yn y ffordd yr oedd Apolos 'yn dysgu yn fanwl y ffeithiau am Iesu' (adn 25)?
- A oes angen 'esbonio ... Ffordd Duw yn fanylach' i ni (adn 26)?
- Ydym ni'n dal yn euog oddi mewn i'r enwadau o ddweud: 'yr wyf fi'n perthyn i blaid Paul ... Minnau, i blaid Apolos' (1 Corinthiaid 3:4)? Beth yw'r olwg gywir ddylai fod gennym ar yr eglwys gyfan, 'gardd Duw' (adn 9)?

S4C

Nos Sul, 30 Mai
Dechrau Canu, Dechrau Canmol, am 7:00yh

Ar y rhaglen, bydd Ryland yn ein tywys o amgylch rhai o'r llefydd llonydd yn Iwerddon sy'n golygu'r byd iddo. Cawn hefyd ymweld â rhannau o Gymru sy'n dod â heddwch i enaid y gantores ifanc Glain Rhys a'r actor Hywel Emrys.

BBC radio cymru

Sul, 30 Mai
Caniadaeth y Cysegr, 7:30yb a 4:30yp
Ailddarllediad o raglen yn ymwneud ag Eisteddfod yr Urdd. Steffan Rhys Hughes sy'n cyflwyno.

Sul, 30 Mai
Oedfa Radio Cymru, 12:00yp
yng ngofal aelodau o Urdd Gobaith Cymru.

Ffydd a diwylliant

Cloriau cain a sgriblan ar ddalen

Mae rhwymo llyfr yn gelfyddyd. Gall y clawr sydd am lyfr fod yn gampwaith. Gall fod yn fwy gwerthfawr na'r cynnwys.

Hyrwyddir gwerth llyfrau ail-law yn aml pan fydd y rheiny mewn 'cyflwr perffaith'. Ond eto, mae 'nodiadau yn llaw hon a hon' hefyd yn medru ychwanegu at werth ac yn sicr at ddiddordeb cyfrol.

Ond tybed ble mae'r ffin rhwng celfyddyd a chyffredinedd? Rhwng marciau sy'n harddu rhywbeth a marciau sy'n anharddu? Rhwng ychwanegu gwerth a thynnu oddi ar werth rhywbeth?

Gen i gof teimlo'n dipyn o lanc o weld un o fy llyfrau wedi ei restru yn *Y Casglwr*, a meddwl mod i wedi cyrraedd, bod fy llyfrau'n deilwng o'u casglu, nes i mi weld yr epithet: 'mewn cyflwr perffaith', a sylweddoli mai go brin fod y llyfr wedi ei ddarllen hyd yn oed.

Mae gen i ffrind sy bron iawn yn bwyta llyfrau. Gallech daeru, ar ôl iddo fo orffen efo nhw, ei fod o leiaf wedi eu cnoi nhw, maen nhw wedi bod drwy'r fath drin. Fyddai 'run o'r llyfrau o'i lyfrgell o'n cyrraedd *Y Casglwr* 'mewn cyflwr perffaith' – ond does neb yn caru, yn gwerthfawrogi nac yn byw llyfrau yn fwy nag o.

Mae gen i gof mynd gyda ffrindiau i wrando ar yr awdur enwog Maya Angelou. Roedd fy ffrind wedi dod â chopi o *Collected Poems* Angelou efo hi. Ar y diwedd, holodd hi'r bardd a fyddai'n fodlon arwyddo'r gyfrol gan ymddiheuro ei bod yn y fath gyflwr ac egluro'i bod hi wedi bod efo hi ar daith rownd y byd, ac o'r herwydd yn dangos ei dannedd. Ymateb Angelou oedd dweud mai gweld llyfr yn y cyflwr hwnnw oedd y *compliment* mwyaf allai hi ei gael.

Eto, dwi'n cofio darllen stori yn rhywle am Gristion uniongred ac Iddew uniongred yn eistedd ar fws yn darllen yr Hen Destament, y naill yn tanlinellu'n daclus a'r llall yn brysur yn sgwennu nodiadau. Y naill yn dysgu air am air a'r llall yn cloddio'u hamwysedd am wythiennau newydd o ystyr ac yn creu tomenni o sbwriel a sgribls.

Sut gasglwr fyddai Iesu Grist tybed? Go brin mai cloriau cain a llyfrgelloedd marmor fyddai ganddo. Cloriau blêr, tudalennau bratiog a sgribls tragwyddol yn y margins, a llyfrau'n bentyrrau blêr hyd y lle – dyna fyddai ei gasgliad o. Llyfrau oedd wedi byw a bod, wedi eu darllen, eu hailddarllen a'u dehongli.

Ac mae natur y casgliad yn dweud cymaint am natur y casglwr.

Nid boi'r cloriau cain y mae pobl ofn eu cyffwrdd, eu hagor a'u darllen, fyddai Crist. Nid boi'r menig gwynion a'r ystafelloedd cysgodol, claear, ond boi dwylo budron a thywydd garw.

Efengylau Caerlwytgoed sy'n cynnwys yr enghraifft hynaf o lawysgrif Gymraeg – gweler yr arddangosfa ddifyr yn eglwys Teilo Sant, Llandeilo.

Does dim gwerth i ni na'n sefydliadau fod fel cloriau cain am dudalennau gwag wedi ein cadw mewn cell tu ôl i ddrysau caeedig, yn ddim mwy na chwedl a chofnod catalog.

Byddai llyfrau Crist, fel rhai Maya Angelou, wedi bod rownd y byd mewn sgrepan, wedi eu darllen yn dwll ac yn sgribls byw, a'u gwerth nid yn eu cyflwr ond yn eu cynnwys. Fel Crist ei hun.

Arwel Rocet Jones
Aberystwyth

Eisteddfod Rithiol Cenn@d 2021 – cystadleuaeth i'n darllenwyr

Gan na fydd hi'n bosib inni fwynhau'r Eisteddfodol Genedlaethol arferol mewn cae yn Nhregaron eleni, dyma lansio cystadleuaeth arbennig ar gyfer darllenwyr *Cenn@d*. Fe'ch gwahoddir i fynd ati i greu eich cyfansoddiadau yn ystod mis Mehefin, gan roi mis Gorffennaf i'r beirniaid gloriannu'r cynnyrch. Bydd enwau a gwaith y buddugwyr yn cael eu cyhoeddi yn *Cenn@d* ddechrau Awst.

Mae gennym dair cystadleuaeth ar eich cyfer, sef:

1. Llunio englyn

Cyfansoddi englyn ar y thema 'Galwad'

Beirniad y gystadleuaeth hon fydd Eurig Salisbury

2. Geiriau i emyn

Cyfansoddi emyn ar y thema 'Gobaith'

Beirniad y gystadleuaeth hon fydd Delyth Morgans Phillips

3. Salm fodern

Creu salm gyfoes ar y thema 'Clodfori Duw yn y byd cyfoes'

Beirniad y gystadleuaeth hon fydd Aled Lewis Evans

Anfonwch eich cyfansoddiadau, un ai drwy e-bost at aled@ysgolsul.com, neu drwy'r post at: Cystadleuaeth Cenn@d, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH, i gyrraedd ddim hwyrach na **30 Mehefin**. Bydd copi o'r gyfrol *Gweddïau Elfed*, sef casgliad cynhwysfawr o weddïau'r diweddar Ddr Elfed ap Nefydd Roberts, yn wobr ym mhob categori.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Oedfa gofiadwy

Darllen – Eseia 6:1–8

Emyn 42: 'Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd'

Cyflwyniad

Dwi'm yn gwybod a fuoch chi erioed ar daith tywys. Efallai eich bod mewn dinas ddieithr ac wedi teithio ar fws awyr agored i weld y golygfeydd.

Mae tywysydd da yn caniatáu o leiaf dri pheth.

Er ei fod ei hunan wedi gweld rhyw olygfa neu grair neu adeilad sawl tro o'r blaen, bydd gan dywysydd da'r ddawn i gyflwyno gwybodaeth berthnasol gyda brwdfrydedd, a rhannu cyffro'r rhai sy'n gweld y gwrthrych am y tro cyntaf.

Bydd, yn ail, yn rhoi digon o rybudd i ni, os ydym ar daith ar fws, er enghraifft, i baratoi ein hunain i weld rhyw olygfa neu fangre sydd ag arwyddocâd neilltuol yn perthyn iddi. Mae'n rhy hwyr pan ydych chi wedi pasio'r olygfa!

Yn drydydd, bydd hefyd yn caniatáu i'r rhai sy'n cael eu tywys i oedi, i edrych, ac i weld drostynt eu hunain, a meddiannu rhyw gymaint o'r wefr a ddaw i'w rhan wrth iddynt adnabod a darganfod drostynt eu hunain.

Pan drown at ein darlleniad heddiw, gadewch i ninnau gael ein tywys gan y Salmydd i adnabod natur, neu hanfod, gwir addoliad.

Wrth ddarllen, byddwn yn sylwi bod yr adnodau'n llawn o'r 'Arglwydd' – cyfeirir ato 18 o weithiau. Ef yw canolbwynt pob addoliad.

Ceir hefyd dair rhan amlwg i'r salm:
i) gwahoddiad i addoli (adn 1–2)
ii) gwrthrych ein haddoli (adn 3–10)
iii) deisyfiad yr addolwyr (adn 11).

Darllen – Salm 29

Myfyrdod

Disgwyliad diwylliannol

Rydym i gyd yn falch ein bod yn byw mewn oes sy'n gwarchod buddiannau defnyddwyr. Ond y mae yna ganlyniadau ar ein disgwyliadau fel defnyddwyr sy'n tarddu o'r diwylliant hwn. Mae gennym 'hawliau' y gallwn bwyso arnynt a chwyno am nwyddau – neu ddychwelyd nwyddau – nad ydynt yn cwrdd â'n disgwyliadau. Rydym oll yn rhan o'r diwylliant sy'n cael ei alw'n 'consumer culture' yn Saesneg. Yn ddwfn o'n mewn, felly, mae ynom ddisgwyliad y byddwn, o brynu rhywbeth neu fuddsoddi mewn rhywbeth, yn ennill budd, a boddhad neu elw personol.

Hanfod addoli – rhoi

Mae hanfod addoliad yn gyfan gwbl estron i'r meddylfryd hwn. Hanfod addoli, yn ôl y salm, yw ein bod yn 'rhoi' yn hytrach na derbyn: yn rhoi gogoniant, moliant ac addoliad i Dduw am ei fod ef ei hun yn gwahodd mawl, yn deilwng o'n haddoliad ac yn denu ein serch.

Paradocs ffydd yw hyn. Er mai ymateb i Dduw a wnawn, mae'r gallu i ymateb, ynddo'i hun, yn rhodd. Dyma addoliad: 'rhoi' ein hunain i Dduw a wnawn. Rhoi heb ddisgwyliad, heb haeddiant; rhoi gan ymgolli yn ein gwrthrych, yn yr 'arall', yn Nuw ei hun. Wrth roi ein hunain iddo canfyddwn ein bodlonrwydd pennaf.

Yn y ddwy adnod gyntaf caiff y ddynolryw, ni 'fodau nefol', a grëwyd ar gyfer mwy na'r llawr a'i lwch a'i laid, wahoddiad – na, yn hytrach, orchymyn i addoli.

Cawn ein gwahodd i gydnabod yr Arglwydd, ei ysblander, ei nerth, ei arwahanrwydd, ei sancteiddrwydd. Mor anodd ydyw i bobl falch roi i arall *y clod* a ddymunwn ein hunain!

Cawn ein gwahodd i roi ein hunain iddo. 'Rhowch i'r Arglwydd' – heb ddisgwyl dim yn ôl, heb ofyn dim yn ôl.

Hanfod addoli – cydnabod gogoniant a nerth Duw

'Rhowch i'r Arglwydd ogoniant a nerth'. Y mae gwir addoliad yn galw arnom i ddefnyddio ein meddwl, ein hewyllys, ein galluoedd a'n doniau oll yn un. Wrth gyflawni'r addoliad 'rhesymol' hwn, unwn â moliant holl fodau'r nef, seraffiaid ac angylion a saint.

Hanfod addoli – ymostwng

Ond y mae rhoi'r gogoniant a'r nerth i'r Arglwydd hefyd yn gofyn am ein hymostyngiad. Mor anodd ydyw i bobl falch i ymostwng.

Mewn cystadleuaeth, peth anodd ydyw i'r un a ddaeth yn ail i gydnabod haeddiant yr enillydd! I bobl falch, sy'n meithrin ein delwedd, sy'n gwarchod ein 'persona' cyhoeddus, peth anodd iawn yw ymgrymu i arall, hyd yn oed os yw'n Arglwydd sy'n ddyrchafedig yn ysblander ei sancteiddrwydd.

Ac amhosibl ydyw i berson sy'n llawn o falchder, yn llawn o'i awydd i warchod ei hawliau a'i deyrnas ei hun, i syrthio a chydnabod gerbron y sanctaidd Un mai celwydd oedd, ac yw, ein hymffrost ni oll i gyd.

A dyna yn ei hanfod yw addoliad. A dyna yn ei hanfod yw ein pechod, sef yr amharodrwydd i roi i'r Arglwydd ogoniant a nerth.

Her addoli

Mae myfyrio fel hyn yn ein herio i ofyn: tybed a ydym wedi addoli Duw erioed? A ydym yn gynulleidfaoedd addolgar sy'n rhoi i'r Arglwydd ogoniant â'n holl nerth meidrol ni? A ydym erioed wedi cydnabod gogoniant a nerth sancteiddrwydd a phurdeb Duw? A ydym erioed wedi ymostwng iddo gan gydnabod yn ein deall, ein hewyllys, ein calon a'n serch mai ef yn unig sy'n deilwng o'n mawl?

Efallai fod teitl un o gyfrolau Rowan Williams, *The Wound of Knowledge,* yn dod â ni'n agos at realiti profiad gwir addolwyr ym mhob oes. Mae *adnabod* gogoniant grasol, cariadlawn Duw yn trywanu balchder ac yn *clwyfo* pechaduriaid gwrthryfelgar.

Ond nid mewn poen a thristwch y gadewir yr addolwr chwaith. Wrth orseddu'r Arglwydd yn frenin, gallwn weddïo: 'Rhodded yr Arglwydd nerth i'w bobl!'

Nerth grasol ydyw sy'n dod â ni i'r adnabyddiaeth a'r ymostyngiad hwn.

Ac adnabyddir y gogoniant hwn yn wyneb Iesu Grist ein Harglwydd trwy nerth yr Ysbryd Glân (2 Corinthiaid 3:16). Mae gallu'r nerth grasol hwn yn dymchwel ac yn adeiladu yr un pryd. Mae'n rheibio ein nerth ni gan gyfrannu nerth Duw i'w bobl. Nerth ydyw sy'n caniatáu i ni ei adnabod, ymostwng iddo a'i addoli, nesáu ato a chyhoeddi ei fawredd. Y nerth hwnnw yw ein bendith, a chyflawnder ei fendith yw ei heddwch (Rhufeiniaid 5:1).

Emyn 30: 'Glân geriwbiaid a seraffiaid'

Gweddi

Sanctaidd a thrugarog Dduw, y mae'r ddaear yn llawn o'th ogoniant ac yn fynegiant o ogoniant dy gariad. Bydded i ninnau sydd wedi adnabod yr Arglwydd Iesu Grist, ac sydd wedi ymostwng i'w arglwyddiaeth, drwy allu'r Ysbryd Glân, dy addoli o'n gwirfodd, gan fod yn dystion gostyngedig a hyderus i'th allu a'th gariad tragwyddol. Boed i eraill trwom ni adnabod cariad Duw, fel y cânt hefyd, trwy gredu, brofi bywyd tragwyddol. Trugarha wrthym a rho i ni, dirion Dad, dy nerth i gartrefu yn ein plith. Amen.

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru